# Croeso i Grŵp Gweithredu 50+ (Sir y Fflint)

## Pwy ydym ni?

- Grŵp o bobl hŷn angerddol ac amrywiol o bob rhan o Sir y Fflint sydd dros 50 oed ydym ni.
- Rydym yn dod at ein gilydd bob mis i fynd i'r afael â phryderon a gobeithion pobl dros 50 oed.
- Rydym yn darparu llais i bobl dros 50 oed ar gyfer penderfyniadau sy'n effeithio arnom i gyd.
- Rydym yn angerddol am sicrhau bod llais poblogaeth dros 50 oed Sir y Fflint yn cael ei glywed.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Fel rhan annatod o Strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru, rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n gallu cael effaith ar fywydau pobl hŷn; o grwpiau cymdeithasol ac elusennau i'r Cyngor Sir.

## Sut ydym yn gwneud gwahaniaeth?

**Rydym yn cyfarfod yn fisol i:**

- Helpu i ddatblygu gwasanaethau
- Rhoi sylwadau i gyrff perthnasol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol.
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddylanwadu'n fuddiol ar wasanaethau a pholisïau sy'n effeithio ar bobl hŷn.
- Ymateb i ymgynghoriadau
- Cydweithio'n agos â sefydliadau lleol fel Cyngor Sir y Fflint, Elusennau Cenedlaethol a Lleol
- Cyfeirio pobl sy'n chwilio am gyngor
- Bod yn falch o gyhoeddi newyddlen Codger bob chwarter

## Hoffech chi ymuno?

Os ydych yn 50 oed neu'n hŷn neu os ydych yn angerddol am gefnogi cymunedau sy'n gyfeillgar i oed gyda phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl 50+, cysylltwch â Chadeirydd y grŵp, Barry Harrison, ar **pharmacistrbh@btinternet.com** neu **01745 560738** i gael sgwrs am y grŵp ac i gael manylion dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd.

**Edrychwn ymlaen at eich croesawu i un o gyfarfodydd y Grŵp Gweithredu 50+ yn fuan!**